




Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Cefndir



Mehefin 2019

PC 36: Rheoli Gwastraff

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: www.conwy.gov.uk/cdlln. Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld ym mhrif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor, a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech siarad â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynghylch unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181/ 575445 / 575124 / 574232.

Gellir darparu'r ddogfen hon ar CD, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.

Cynnwys

1. Cyflwyniad	4
2. Y Cyd-destun o ran Polisi.....	4
3. Canfyddiadau'r Ffurflen Fonitro Flynyddol.....	5
4. Newidiadau o ran Cyd-destun	6
5. Darpariaeth ac Angen	7
6. Adolygu polisiâu'r CDLI.....	7
Atodiad 1: Dolenni at Bolisi Cynllunio Cymru	11
Atodiad 2: Cyfleusterau Gwastraff a Ganiatawyd yng Nghonwy: Ffynhonnell CNC 2018	13
Atodiad 3: Gwastraff a Reolwyd gan Gyfleusterau Gwastraff yng Nghonwy yn 2016: Ffynhonnell CNC.....	15
Atodiad 4: Gwastraff a Symudwyd o Gyfleusterau Gwastraff Conwy yn 2016: Ffynhonnell CNC.....	16
Atodiad 5: Gwastraff Awdurdodau Lleol a Gesglir yng Ngogledd Cymru	17
Atodiad 6: Ceisiadau Cynllunio ar gyfer Gwastraff	18

1. Cyflwyniad

- 1.1 Lluniwyd y papur cefndir hwn i gefnogi'r broses o ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) 2018-2033. Diben y papur hwn yw adolygu'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd yn sail ar gyfer datblygu'r CDLI, a chyflwyno unrhyw dystiolaeth ychwanegol yn gysylltiedig â gwastraff. Lluniwyd Papur Cefndir 20: Rheoli Gwastraff, yng nghyd-destun Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol, Nodyn Cyngor Technegol (2001) ac Argraffiad 5 PCC (2012). Bellach, mae'r holl ddogfennau hynny naill ai wedi'u diwygio neu eu disodli. Bu cryn newid hefyd o ran cyd-destun, sydd wedi effeithio ar y dull o reoli gwastraff o fewn y rhanbarth, ac mae angen ystyried hyn wrth ddatblygu'r CDLIN.

2. Y Cyd-destun o ran Polisi

- 2.1 Ers mabwysiadu'r CDLI, bu amryw o newidiadau polisi a chanddynt oblygiadau o ran gwastraff. Mae Polisi Cynllunio Cymru wedi cael ei ddiwygio droeon gan gyflwyno newidiadau sylweddol i'r polisi gwastraff. Gwnaed i ffwrdd â'r gofyniad i greu Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol er bod gofyniad o hyd i gyflawni gwaith monitro i sicrhau bod y capasiti gwaredu ac adfer yn ddigonol o fewn rhanbarth. Mae'n rhaid i Gynlluniau Datblygu ddangos sut y rhoddwyd ystyriaeth i'r Strategaeth Gwastraff Genedlaethol, gan gynnwys y Cynllun Sector Seilwaith a Marchnadoedd (2012) ac unrhyw ddiweddariad monitro.
- 2.2 Cafodd y Strategaeth Gwastraff Genedlaethol ei chyhoeddi yn 2010, ond roedd cyfres o Gynlluniau Sector ar ganol cael eu cynhyrchu sydd yn berthnasol i'r CDLIN. Mae Nodyn Cyngor Technegol 21 hefyd wedi cael ei ddiwygio i sicrhau bod y fframwaith cynllunio defnydd tir yn adlewyrchu gofynion y Strategaeth Gwastraff Genedlaethol a'r Cynlluniau Sector cysylltiedig.
- 2.3 Mae nifer o adroddiadau monitro rhanbarthol wedi cael eu cyhoeddi sy'n dangos bod sgil-gynhyrchion gwastraff a gesglir gan yr awdurdod lleol o fewn y Sir wedi gostwng yn gyffredinol ers 2008, a bod cyfraddau ailgylchu wedi cynyddu ar y cyfan. Y prif gasgliad hyd yma yw nad oes unrhyw angen am gapasiti gwaredu ychwanegol o fewn y rhanbarth, ac y dylid rhoi ystyriaeth ofalus i unrhyw waith pellach er mwyn trin gwastraff gweddilliol er mwyn sicrhau na fyddai'r cyfleuster yn arwain at orddarpariaeth.
- 2.4 Mae darpariaeth a lleoliad cyfleusterau rheoli gwastraff yn CDLIN Conwy angen cydymffurfio â'r amcanion a nodir o fewn yr Amcan Strategol 11 (SO11) Mwynau a Gwastraff: Cyfrannu at weithredu'r economi gylchol, rheoli gwastraff gydag effaith amgylcheddol lleiaf posibl a sicrhau defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol, gan gynnwys ar gyfer cynhyrchu ynni a darparu cyflenwad digonol o fwynau a deunydd ar gyfer adeiladu.

- 2.5 Yn ogystal, bydd cyfleusterau rheoli gwastraff a pholisïau CDLI sy'n ymddangos angen bodloni amcanion amwynder ac amgylcheddol a nodir o fewn Amcan Strategol 15 (SO15) Dŵr, Aer, Seinwedd a Golau: Dod i lai o gysylltiad â llygredd aer a sŵn, cydbwyso darpariaeth datblygiad a golau i wella diogelwch, a gwarchod a gwella amgylchedd y dŵr ac adnoddau dŵr gan gynnwys faint o ddŵr wyneb a dŵr daear sydd, a'i ansawdd.

3. Canfyddiadau'r Ffurflen Fonitro Flynyddol

- 3.1 Sefydlwyd y dangosyddion monitro blynyddol yng nghyd-destun Adolygiad 1^{af} y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol, a chan ddefnyddio Dangosyddion Craidd a sefydlwyd yn Llawlyfr y CDLI sydd wedi cael ei ddiweddarau ers hynny. Mae'r Ffurflen Fonitro Flynyddol yn monitro cyfraddau ailgylchu a'r capasiti rheoli gwastraff y rhoddyd caniatâd cynllunio ar ei gyfer, fel canran o'r capasiti gofynnol, fel y nodir yn Adolygiad 1^{af} y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol. Fod y nodwyd uchod, mae'r cyfraddau ailgylchu wedi cynyddu'n gyson, gan ragori ar y targedau statudol, ac maent ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed statudol yn 2019/20 - gweler tabl 1 isod.

Tabl 1: Cyfraddau Ailgylchu mewn %

	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18
Conwy	56.4	56.3	59.1	59.7	62.6	63.7
Cymru	52.3	54.3	56.2	60.2	63.8	62.7
Targedau Statudol	52	Amh.	Amh.	58	Amh.	Amh

Ffynhonnell: Adroddiad Monitro Gogledd Cymru 2017/18 ac Ystadegau Cymru

- 3.2 Mae'r Ffurflen Fonitro Flynyddol yn dangos bod cyfres o geisiadau cynllunio wedi'u caniatáu, oddi mewn ac oddi allan i Gonwy ond yn rhanbarth Gogledd Cymru, a ddatblygwyd i ymdrin â sgil-gynhyrchion o Gonwy. Mae Cyngor Conwy yn rhan o Bartneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru sydd wedi caffael capasiti i reoli hyd at 200,000 o dunelli o wastraff gweddilliol bob blwyddyn. Er bod y cyfleuster yn cal ei ddatblygu yn Sir y Fflint, bydd yn gwasanaethu'r awdurdodau Partner, gan gynnwys Conwy. Mae Conwy hefyd wedi ymrwymo i bartneriaeth â Sir Ddinbych a Sir y Fflint i gaffael capasiti trin gwastraff bwyd, a chanlyniad hynny yw datblygu cyfleuster treulio anaerobig yn Sir Ddinbych.

4. Newidiadau o ran Cyd-destun

- 4.1 Bu nifer fawr o newidiadau i'r diwydiant gwastraff a'r dull o'i reoleiddio dros y blynyddoedd diwethaf. Cyflwynwyd y newidiadau hyn i annog rheolaeth gynaliadwy ar wastraff, i leihau'r baich rheoleiddio lle bo hynny'n briodol, er enghraifft Diwedd Gwastraff, a chynyddu'r trefniadau rheoleiddio lle gellir cyfiawnhau hynny. Trafodir y newidiadau mwyaf sylweddol isod.
- 4.2 Daeth y gofyniad i gasglu gwastraff ar wahân i rym o'r 1 Ionawr 2015. Mae'r gofynion yn berthnasol i wastraff o bob ffynhonnell, gan gynnwys gwastraff masnachol a diwydiannol, ac yn golygu bod yn rhaid darparu casgliadau ar wahân ar gyfer papur, metel, plastig a gwydr neu, lle bo'r casgliadau hynny wedi'u cyfuno, bod yn rhaid eu prosesu hyd at safon briodol. Mae'r gofyniad hwn yn ychwanegol at y gofyniad i drin gwastraff ymlaen llaw cyn ei waredu mewn safle tirlenwi, sydd wedi bod mewn grym ers 2007.
- 4.3 Mae cyfraddau Treth Tirlenwi wedi cynyddu'n sylweddol ers mabwysiadu'r CDLI. Yn 2012/13, £64 fesul tunnell o wastraff oedd y gyfradd safonol a £2 fesul tunnell oedd y gyfradd is. Ar hyn o bryd, codir treth tirlenwi o £88.95 fesul tunnell ar y gyfradd safonol, a £2.80 ar y gyfradd is. I raddau sylweddol, mae hyn yn lleihau gallu safleoedd tirlenwi i gystadlu â dulliau eraill o reoli gwastraff nad ydynt yn ddarostyngedig i'r dreth.
- 4.4 Mae gwaith i ehangu cyfleusterau presennol a datblygu cyfleusterau newydd wedi dylanwadu'n fawr ar benderfyniadau ynghylch sut ac ymhle i reoli gwastraff. Mae Awdurdodau Lleol wedi cael ysgogiad ariannol i caffael capasiti dynodedig ar gyfer rheoli gwastraffau bwyd a gwastraff gweddilliol. Mae nifer o gyfleusterau ar draws Cymru wedi cael eu datblygu mewn ymateb i hyn, gan gynnwys y safle ynni a gwastraff Parc Adfer yn Sir y Fflint sydd i ddod yn weithredol yn ddiweddarach yn 2019 a'r cyfleuster TA yn Rhualt, Sir Ddinbych sydd yn uniongyrchol berthnasol i Gonwy. Mae'r ddau gyfleuster wedi cael eu caffael i reoli gwastraff a gesglir gan Gyngor Conwy. Mae gan Parc Adfer hefyd y capasiti i reoli rhywfaint o wastraff masnachol a diwydiannol dros ben, er y byddai'r swm y gellid ei reoli yn ddibynnol ar ofynion yr Awdurdodau Partner. Gall datblygu cyfleusterau o'r fath effeithio ar gwmnïau rheoli gwastraff masnachol sy'n dibynnu ar gontractau awdurdod lleol.
- 4.5 Mae'r ffaith bod llai o wastraff yn cael ei waredu mewn safleoedd tirlenwi wedi effeithio ar hyfywedd economaidd safleoedd tirlenwi. Mae nifer o safleoedd gwaredu wedi cau yng Nghymru cyn iddynt gael eu cwblhau oherwydd y costau'n gysylltiedig â'u gweithredu o gymharu â'r referniw a geir o'r sgil-gynhyrchion. Caiff gweddill y safleoedd tirlenwi yn rhanbarth Gogledd Cymru eu gweithredu gan gwmnïau masnachol a allai wneud penderfyniadau tebyg wrth weithredu. Gallai hyn adael y rhanbarth yn brin o

gapasiti gyda fframwaith polisi lle byddai angen canfod safle(oedd) ychwanegol. Yn y pen draw, mae hyn yn fater y mae angen i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael ag ef.

5. Darpariaeth ac Angen

- 5.1 Ceir amrywiaeth o gyfleusterau rheoli gwastraff yng Nghonwy, gan gynnwys dau safle gwaredu: Llanddulas, sy'n rheoli gwastraff nad yw'n beryglus, a Fferm Tŷ Mawr sy'n rheoli gwastraff anadweithiol. Mae'r Cyngor yn gweithredu sawl safle amwynder dinesig a gorsaf grynhoi, ac mae gweddill y safleoedd yn cael eu rheoli gan gwmnïau preifat. Yn Atodiad 1, ceir manylion cyfleusterau a ganiatwyd yng Nghonwy, hy, y safleoedd hynny a chanddynt drwydded gan Gyfoeth Naturiol Cymru sydd yn caniatáu iddynt reoli gwastraff. Mae'n debygol bod y nifer fach o gyfleusterau o gymharu â llawer o awdurdodau eraill yn adlewyrchu natur wledig a chyfyngedig y Fwrdeistref Sirol.
- 5.2 Mae'r wybodaeth am sgil-gynhyrchion yn brin ar lefel yr awdurdod cynllunio lleol. Gall data ar ffurflenni gwastraff a ddarparwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru roi syniad o swm y gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghonwy, ond mae angen bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r wybodaeth honno gan nad yw'n cynnwys gwastraff a anfonir i gyfleusterau eithriedig, a gall roi amcangyfrif rhy isel o'r gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu oherwydd problemau'n gysylltiedig â chodio a symud gwastraff drwy orsafoedd trosglwyddo gwastraff. Er hynny, mae Atodiad 2 a 3 yn dangos mai llai na 200,000 o dunelli o wastraff a reolwyd yng Nghonwy, o'r 2,980,262 o dunelli o wastraff a dderbyniwyd gan gyfleusterau yng Ngogledd Cymru, a bod mwyafrif y gwastraff wedi'i reoli yn Sir y Fflint ac yn Wrecsam, yn y drefn honno. Natur ddiwydiannol yr awdurdodau hynny o'u cymharu ag Awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru, a'u hagosrwydd at Loegr, yw'r rheswm mwyaf tebygol am hyn.
- 5.3 Mae nifer o geisiadau cynllunio wedi cael eu caniatáu o fewn y Fwrdeistref Sirol ers mabwysiadu'r CDLI, fel y nodir yn Atodiad 5. Yn ogystal â hynny, cynhaliwyd ymchwiliadau gorfodi ar safle yn Abergele sydd ar ganol cael ei reoleiddio drwy gyflwyno cais cynllunio. Mae'r defnydd rheoli gwastraff ar y safle wedi dwysáu, ac mae'r safle bellach yn rheoli llawer mwy o wastraff nag o'r blaen. Mae'r safle bellach yn cynhyrchu Tanwydd sy'n Deillio o Wastraff, a gaiff ei allforio o'r safle i'w adfer yn ddatblygiad o bwys i'r cyd-destun lleol.

6. Adolygu polisiâu'r CDLI

Polisi Strategol DP/1 Rhan 2 (i)

- 6.1 Nid yw Polisi DP/1 Rhan 2(i) yn ddigonol i sicrhau ystyriaeth o leihau gwastraff ym mhob datblygiad, a dylid ei ddiwygio, yn enwedig yn sgil y newidiadau arfaethedig i PCC o ran yr Economi Gylchol. Nid yw'r polisi yn gofyn am ddarparu cyfleusterau i gasglu, compostio ac ailgylchu gwastraff mewn datblygiad nad yw'n gysylltiedig â gwastraff.

Polisi Strategol MWS/1 Mwynau a Gwastraff

- 6.2 Polisi Strategol MWS/1 Mwynau a Gwastraff, yw'r polisi cyffredinol ar gyfer gwastraff, ac fe'i cefnogir gan nifer o bolisiâu manwl, gan gynnwys MWS/5, MWS/6, MWS/7 ac MWS/8. Nid yw Polisi MWS/1 yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at yr angen i yrru'r rheolaeth ar wastraff yn uwch i fyny'r Hierarchaeth Gwastraff, yn unol â pholisi cenedlaethol, a dylid ei ddiwygio'n unol â hynny.

Polisi MWS/5 Cynigion ar Reoli Gwastraff

- 6.3 Polisi MWS/5: Cynigion ar gyfer Rheoli Gwastraff: yn cefnogi cynigion os ydynt yn bodloni angen a nodwyd yng Nghynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru, neu angen sy'n codi ar raddfa leol; os nad yw cyfleusterau sy'n bodoli eisoes neu gyfleusterau cymeradwy yn gallu bodloni'r angen; os yw'n cefnogi adennill gwerth o wastraff; yn creu cysylltiadau â gofynion ym mholisiâu eraill y Cynllun.
- 6.4 Nid oes rhaid i CDLlau bellach roi sylw i'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol. Mae'r Cynllun hwnnw wedi dyddio erbyn hyn, ac nid yw'n berthnasol mwyach i ddibenion cynllunio gwastraff. Mae Nodyn Cyngor Technegol 21 yn cadarnhau mai'r Cynllun Casgliadau, Seilwaith a'r Sector Marchnadoedd (CSSM) yw'r man cychwyn er mwyn canfod a oes rhwydwaith digonol i waredu ac adfer gwastraff trefol cymysg, fel y caiff ei ddiweddarau drwy'r gwaith monitro rhanbarthol. Nododd y CSSM rhwng 203 a 468 o filoedd o dunelli'r flwyddyn o fwch mewn capasiti ar gyfer trin gwastraff gweddilliol. Mae'r amrywio hwn yn deillio o ansicrwydd ynghylch sgil-gynhyrchion a llwyddiant rhaglenni lleihau gwastraff a mentrau ailgylchu. O ran tirlenwi, nododd y CSSM y byddai'r gwagle tirlenwi yn darfod yn 2016/17, fel senario waethaf, ac y byddai'r gwagle yn parhau am gyfnod amhenodol yn y senario orau.
- 6.5 Mae'r CSSM yn rhybuddio rhag gorddarparu mathau o gyfleuster, ac mae Nodyn Cyngor Technegol 21 yn cynghori na fydd gorddarpariaeth ond yn cael ei chyfiawnhau os yw'r cyfleuster mewn lleoliad cynaliadwy. Felly, mae angen taro cydbwysedd rhwng sicrhau darpariaeth ddigonol ac osgoi darpariaeth ormodol. O ran capasiti tirlenwi, mae Nodyn Cyngor Technegol 21 yn nodi ar ba lefel y dylid cynnal capasiti, a sbardun ar gyfer gweithredu. Hyd yma, nid ydym wedi cyrraedd y sbardun ar gyfer gweithredu gan fod

nifer y tunelli o wastraff a waredir mewn safleoedd tirlenwi wedi gostwng. O ran adfer gwastraff, mae capasiti sylweddol yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a fyddai'n rheoli gwastraff awdurdod lleol am y 25 mlynedd nesaf. Ceir llawer mwy o ansicrwydd yn gysylltiedig â'r mathau eraill o gyfleusterau gwastraff, ac ar yr amod bod cyfleusterau wedi'u lleoli'n briodol, a'u bod yn symud y rheolaeth ar wastraff yn uwch i fyny'r hierarchaeth gwastraff, mae'n llai tebygol y ceir unrhyw niwed yn sgil gorddarparu.

Polisi MWS/6 Lleoliadau ar gyfer Cyfleusterau Rheoli Gwastraff

- 6.6 Mae Polisi MWS/6 yn gwarchod Chwarel Llanddulas a Gofer ar gyfer cyfleusterau gwastraff ac yn nodi amrywiaeth o fathau o gyfleusterau a allai fod yn addas ar y safleoedd hyn. Nodwyd y gofyniad i neilltuo tir ar gyfer rheoli gwastraff yn Adolygiad 1^{af} y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol, a thybiwyd bod y tir a neilltuwyd yn ddigonol i fodloni'r angen a nodwyd. Fel y nodwyd uchod, nid yw'r Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol yn berthnasol mwyach, ac nid yw'r angen am dir yn cael ei fesur bellach. Mae'r capasiti sy'n cael ei ddatblygu o fewn y rhanbarth yn ddigonol o gyrraedd y trothwy isaf a nodwyd yn y Cynllun CSSM, ac mae'r capasiti gwaredu o fewn y rhanbarth wedi'i nodi'n ddigonol ar hyn o bryd. Serch hynny, mae angen ystyried gofynion rheoli gwastraff drwy'r CDLIN er mwyn sicrhau bod y safleoedd yn safleoedd sydd yn wirioneddol ar gael ac yn safleoedd addas. Os na fydd y Cyngor yn ymdrin â'r mater hwn drwy'r CDLIN, bydd hynny'n ei adael yn agored i geisiadau ar safleoedd maes glas.
- 6.7 Mae cwmni preifat, FCC, yn berchen ar safle Llanddulas, ac ar hyn o bryd yn gweithredu cyfleuster compostio a thirlenwi ar gyfer gwastraff nad yw'n beryglus ar y safle. Mae'r ardal wedi'i nodi ar gyfer gwaith rheoli gwastraff yn y dyfodol, ac wedi bod yn destun dau gais cynllunio: 0/38815, a gymeradwywyd yn 2012 ac sydd bellach wedi dod i ben a 0/43047 a gymeradwywyd ar 03/02/2017 ar gyfer gorsaf trosglwyddo gwastraff a fyddai'n rheoli hyd at 40,000 o dunelli o wastraff trefol a 40,000 o dunelli o wastraff anadweithiol bob blwyddyn.
- 6.8 Yn rhan o broses y CDLIN, mae perchnogion Llanddulas wedi cyflwyno tir sydd yn eiddo iddynt i'w ddefnyddio i amrywiaeth o wahanol ddibenion. Bydd angen parhau i adolygu'r mater hwn wrth ystyried y gallu i gyflawni yn gysylltiedig â'r safle, ac a yw'r safle yn safle sydd yn wirioneddol ar gael at ddefnydd rheoli gwastraff. Fodd bynnag, gall rhan o'r safle barhau i gael ei gadw ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau rheoli gwastraff a chadw rhannol, argymhellir yn y polisi i sicrhau bod darpariaeth ar gael ar gyfer rheoli gwastraff, ac yn arbennig ailgylchu gwastraff adeiladu a dymchwel a rheoli gwastraff masnachol a diwydiannol.

- 6.9 Bu craffu ar argaeledd Gofer yn ystod apêl, cyfeirnod APP/T6905/A/15/3140639. Apêl ydoedd yn erbyn gwrthod caniatâd cynllunio, cyfeirnod 0/41842, i newid y tir i gynnwys estyniad o safle rheoli gwastraff presennol ar dir i'r gorllewin o Ofer. Mae'r Cyngor wedi comisiynu astudiaeth i archwilio potensial y safle i gynnwys datblygiad, gan ystyried y materion yn gysylltiedig â halogiad ar y safle. Roedd yr astudiaeth honno wedi'i rhannu'n ddwy, â'r rhan olaf yn rhoi asesiad manwl o halogiad a'r camau adferol yr oedd eu hangen er mwyn hwyluso datblygiad. Casgliad yr astudiaeth yw bod modd i'r safle gynnwys datblygiad awyr agored, ond y byddai angen cyflawni cymaint o waith lliniarol er mwyn codi adeilad, fel y byddai'r gost o wneud hynny'n ormodol. Yn sgil hynny, mae angen adolygu'r penderfyniad i neilltuo Gofer drwy broses y CDLIN.
- 6.10 Yn ychwanegol at y safleoedd a neilltuwyd, mae tir diwydiannol o fewn y Fwrdeistref Sirol, Stad Ddiwydiannol Tre Marl, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys safle rheoli gwastraff mawr, ar fin cael ei golli ar ôl cymeradwyo cais am archfarchnad a bwyty newydd. Mae'r gweithredwr gwastraff yn chwilio'n frwd am leoliad arall yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r Cyngor yn ystyried datblygu gorsaf drosglwyddo i gefnogi Prosiect Partneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru. Byddai neilltuo safle yn rhoi sicrwydd i'r diwydiant ac yn fodd i sicrhau bod cyfleusterau rheoli gwastraff yn cael eu datblygu mewn lleoliadau priodol.

Polisi MWS/7 Defnyddio Tir Diwydiannol ar gyfer Cyfleusterau Rheoli Gwastraff

- 6.11 Maer Polisi MWS/7 yn cyfeirio cyfleusterau rheoli gwastraff tuag at stadau diwydiannol a chyfleusterau nwyddau rheilffordd sy'n bodoli eisoes. Mae'r polisi yn cynnwys prawf cymalog sy'n cefnogi datblygu safleoedd y tu allan i ffiniau datblygiad, os nad oes safleoedd presennol neu safleoedd wedi'u neilltuo ar gael. Mae'n hanfodol cadw rhywfaint o hyblygrwydd gan nad yw pob math o gyfleuster rheoli gwastraff yn briodol i'w gynnwys ar safleoedd diwydiannol. Mae'n bosibl hefyd y ceir sawl rheswm yn gysylltiedig â'r lleoliad sydd yn golygu y dylid lleoli cyfleuster mewn ardal o gefn gwlad agored. Defnyddiwyd y polisi fel un o'r rhesymau dros wrthod yn apêl cyfeirnod APP/T6905/A/15/3140639.

Polisi MWS/8 Parth Clustogi Tirlenwi

- 6.12 Mae'r polisi hwn yn gweithredu parth clustogi 250m o amgylch y safle tirlenwi, ac oddi mewn i'r parth hwnnw ceir rhagdybiaeth yn erbyn datblygu amhriodol, a allai gynnwys datblygiadau preswyl, cyflogaeth, twristiaeth a chyfleusterau cymunedol. Nodwyd y parth clustogi oherwydd materion diogelwch posibl yn gysylltiedig â nwyon o'r safle a'r posibilrwydd y bydd

gweithgarwch tirlenwi yn achosi niwsans. Calchfaen yw'r haenau gwaelodol a allai gynnwys llwybrau y gall nwyon deithio ar eu hyd.

- 6.13 Yn ôl gweithredwr y safle tirlenwi, bydd y safle yn rhoi'r gorau i dderbyn gwastraff nad yw'n beryglus yn ystod oes Adolygiad y CDLI, ac mae'n ystyried dulliau eraill o ddefnyddio'r tir sydd o dan ei reolaeth. Ar hyn o bryd, argymhellir y dylid cadw'r polisi a'r parth clustogi cysylltiedig, er y gellid bod angen adolygu'r union eiriad a maint y parth yn sgil bwriadau'n gysylltiedig â'r safle i'r dyfodol.

Atodiad 1: Dolenni at Bolisi Cynllunio Cymru

Polisi Cynllunio Lleol 10, Pennod 5 Llefydd Cynhyrchiol a Mentrus Lefel Cydymffurfiad Materion Polisi Mwynau a Gwastraff.	
Paragraff	Mater Polisi
5.11.7 Economi Gylchol	Deall ac adnabod nodweddion economi gylchol i baratoi ar gyfer cynllun datblygu i ddylunio gwastraff, dewisiadau dylunio a dylunio wrth ailddefnyddio ac ailgylchu.
5.12.1 Dewisiadau Dylunio i Atal Gwastraff	Cyfleoedd i Leihau neu ailgylchu gwastraff yn y dyluniad, adeiladu a gweithredu adeiladau newydd i'w nodi yn strategaethau cynllunio a pholisïau.
5.12.6 Dylunio gyda Deunyddiau Lleol, Amgen neu wedi'u Hailgylchu	Dylai polisïau annog ailddefnyddio ac ailgylchu agregau eilaidd, adeiladu, dymchwel, cloddiad gwastraff a deunyddiau addas eraill.
5.12.8 Dylunio gyda Deunyddiau Lleol, Amgen neu wedi'u Hailgylchu	Dulliau arloesol i ailgylchu, gan gynnwys 'chwareli trefol' ac iard masnach adeiladwr.
5.13.1 Cyfleusterau Rheoli Gwastraff Cynaliadwy	Fframwaith ar gyfer rheoli gwastraff cynaliadwy i fodloni anghenion cymdeithas a busnesau, lleihau effeithiau amgylcheddol, perygl i iechyd dynol, diogelu tirlun dynodedig a chadwraeth natur, a diogelu amwynder.
5.13.4 Polisi Gwastraff Cenedlaethol a Hierarchaeth Gwastraff Ffigur 10	Cefnogi cyfleusterau sydd yn gweddu dyheadau polisi gwastraff cenedlaethol Tuag at Ddyfodol Diwastraff a hierarchaeth gwastraff.
5.13.8 Monitro ac Aseidiadau Gwastraff	Dangos sut mae polisi gwastraff cenedlaethol a'r Cynllun Sector CIM yn cael eu hystyried.
5.13.12 Darpariaeth o Seilwaith Gwastraff Amrywiol ac Eang	Lleoliadau Addas ar gyfer datblygu gwastraff cynaliadwy i'w nodi mewn cynlluniau datblygu a meini prawf i

	benderfynu ar ddatblygiad. Darpariaeth realistig ar gyfer cyfleusterau penodol a all fod yn niweidiol ar amwynder, cadwraeth neu ffynhonnell posibl i lygredd.
5.13.14 Monitro ac Aseidiadau Gwastraff	Annog ailgylchu ac aildddefnyddio gwastraff adeiladu a dymchwel, gwastraff mwynau a diwydiannol. Mae pob Awdurdod, yn annibynnol neu gydag awdurdodau cyfagos yn gwneud darpariaeth a dylid nodi lleoliadau a ffefrir ar gyfer ailgylchu, storio a phrosesu deunyddiau anadweithiol, a meini prawf ar gyfer asesu safleoedd ailgylchu os na ellir nodi safleoedd addas.
5.14.50 Adfer ac Ôl-ofal	Dylai adfer ac ôl-ofal ddarparu modd i o leiaf cynnal ac i wella ansawdd hirdymor y tir a thirlunio a gymerir ar gyfer echdynnu mwynau.
5.14.54 Ôl-ddefnydd	Egwyddorion Arweiniol a safonau isafswm ar gyfer adfer.
5.14.55 Ôl-ddefnydd	Lle bo'n briodol, cynlluniau datblygu, wedi'i hysbysu gan aseidiadau seilwaith gwyrdd, gan gynnwys cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth leol a strategaethau cefn gwlad,, a ddylai rhoi canllaw ar yr ôl-ddefnydd a ffefrir a safonau adfer. Bydd dewis o ôl-ddefnydd yn dibynnu ar nifer o faterion, gan gynnwys strategaeth cyffredinol y cynllun datblygu, tirffurf terfynol, argaeledd ac ansawdd pridd neu ddeunyddiau adfer eraill a defnydd tir cyfagos.

Atodiad 2: Cyfleusterau Gwastraff a Ganiatawyd yng Nghonwy: Ffynhonnell CNC 2018

Rhif Trwydded	Tref / Dinas	Categori
QP3194FY	Abergele	Cyfleuster i gerbydau ar ddiwedd eu hoes
DP3194FK	Cyffordd Llandudno	Cyfleuster i gerbydau ar ddiwedd eu hoes
RP3394FS	Llandudno	Cyfleuster i gerbydau ar ddiwedd eu hoes
MB3097TG	Abergele	Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref
MB3397TZ	Bae Colwyn	Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref
SP3594FG	Llanrwst	Gorsafoedd Trosglwyddo Gwastraff y Cartref, Masnachol a Diwydiannol
JP3894FM	Abergele	Gorsafoedd Trosglwyddo Gwastraff y Cartref, Masnachol a Diwydiannol (gan gynnwys gwaith trin)
EB3931AM	Bae Colwyn	Gorsafoedd Trosglwyddo Gwastraff y Cartref, Masnachol a Diwydiannol (gan gynnwys gwaith trin)
UP3794FZ	Cyffordd Llandudno	Gorsafoedd Trosglwyddo Gwastraff y Cartref, Masnachol a Diwydiannol (gan gynnwys gwaith trin)
QP3394FB	Bae Cinmel	Gorsafoedd Trosglwyddo Gwastraff y Cartref, Masnachol a Diwydiannol (gan gynnwys gwaith trin)

AP3494FF	Bae Colwyn	Gorsafoedd Trosglwyddo Gwastraff y Cartref, Masnachol a Diwydiannol (gan gynnwys gwaith trin)
HP3591EZ	Abergele	CAD Diwydiannol a Masnachol
BP3330LS	Abergele	Safle Tirlenwi Gwastraff Anadweithiol
YP3091ED	Bae Colwyn	Cyfleuster gwastraff mwyngloddio ac echdynnol
RP3695VS	Conwy	Cyfleuster gwastraff mwyngloddio ac echdynnol
DS3634RX	Conwy	Rhesgompostio Agored
CB3432AA	Conwy	Rhesgompostio Agored
ZP3097ET	Conwy	Defnyddio/trin gwastraff anadweithiol er mwyn adfer tir neu adeiladu

Atodiad 3: Gwastraff a Reolwyd gan Gyfleusterau Gwastraff yng Nghonwy yn 2016: Ffynhonnell CNC

Math o Gyfleuster	Cyfanswm
Safle Amwynder Dinesig	11,292
Torri Ceir	724
Compostio	14,103
Gollwng gwastraff i'r tir (adfer)	1,384
Trosglwyddo Gwastraff Peryglus	5,419
Cyfleuster Tirlenwi Gwastraff Anadweithiol	19,823
Cyfleuster Ailgylchu Deunyddiau (CAD)	486
Tirlenwi Gwastraff nad yw'n Beryglus	45,767
Trosglwyddo Gwastraff nad yw'n Beryglus	96,289
Cyfanswm Terfynol	195,287

Tarddiad a Gofnodwyd	Cyfanswm
Dwyrain Swydd Gaer	7
Gorllewin Swydd Gaer a Chaer	489
Conwy	111,598
Sir Ddinbych	60,759
Swydd Derby	20
Lloegr	10
Sir y Fflint	9,613
Gwynedd	4,829
Ynys Môn	5,139
Lerpwl	1
Manceinion	212
Powys	48
Swydd Amwythig	11
Cymru	897
Warrington	0
Cilgwri	8
Wrecsam	156
Efrog	1
(gwag)	1,488
Cyfanswm Terfynol	195,287

Atodiad 4: Gwastraff a Symudwyd o Gyfleusterau Gwastraff Conwy yn 2016: Ffynhonnell CNC

D.S. Yn ogystal â'r mathau o wastraff a nodir isod, cafodd 2,965 o dunelli o wastraff ei reoli yng Nghyfleuster TA Rhualt, a 390 o dunelli o wastraff ei reoli yng Nghyfleuster TA Llwyn Isaf yn 2016.

ACG Cychfan	Tunelli
(gwag)	17
ACG Heb ei Godio	1,097
AU Bedford	53
Caint	428
Casnewydd	30
Conwy	23,175
Darlington	150
Dinas Nottingham	208
Dinas Stoke-on-Trent	100
Dwyrain Swydd Gaer	2,110
Gogledd Iwerddon	21
Gorllewin Swydd Gaer a Chaer	180
Gwynedd	3,082
Hampshire	27
Kingston Upon Hull City	7,837
Leeds	0
Lerpwl	1,220
Manceinion	3,976
Powys	0
Salford	0
Sir Ddinbych	492
Sir y Fflint	18,332
Swydd Amwythig	2,886
Swydd Derby	103
Swydd Gaerlŷr	280
Swydd Gaerhirfryn	73
Swydd Lincoln	26,840
Swydd Northampton	26
Swydd Stafford	10
Wakefield	25
Warrington	40
Wrecsam	4,496
Ynys Môn	23
Cyfanswm Terfynol	97,338

Atodiad 5: Gwastraff Awdurdodau Lleol a Gesglir yng Ngogledd Cymru

Awdurdod Lleol	2008/ 09	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
Conwy	77,200	72,500	67,800	67,200	66,800	63,900	64,300	63,523	63,000
Sir Ddinbych	48,800	44,400	44,000	42,100	43,500	42,600	42,000	42,333	44,000
Sir y Fflint	87,900	87,700	88,300	86,900	88,100	89,900	84,500	85,456	86,000
Gwynedd	79,900	80,300	77,600	76,400	77,000	77,000	73,100	73,259	75,000
Ynys Môn	44,500	43,200	43,800	43,200	41,900	39,500	39,600	40,268	39,000
Wrecsam	82,200	79,000	80,100	77,400	75,800	80,600	80,100	83,271	88,000
Gogledd Powys	41,200	39,800	38,100	38,000	39,300	36,800	36,000	34,441	33,000
Cyfanswm	461,700	446,900	439,700	431,200	432,400	430,300	419,600	422,551	428,000

Atodiad 6: Ceisiadau Cynllunio ar gyfer Gwastraff

Cyfeirnod y Cais	Lleoliad	Disgrifiad	Penderfyniad	Dyddiad
0/40956	Safle Melin Wynt, Abergele	Newid defnydd tir i gynnwys estyniad ar safle rheoli gwastraff presennol.	Tynnwyd yn ôl	18/06/2015
0/41702	Ffordd Bron y Nant, Mochdre	Ychwanegu gorsaf trosglwyddo gwastraff at gyfleuster llogi sgipliau presennol.	Cymeradwywyd gydag amodau	30/08/2016
0/41842 Cyf Apêl: APP/T6905/A/15/ 3140639	Safle Melin Wynt, Abergele	Newid defnydd tir i gynnwys estyniad ar safle rheoli gwastraff presennol.	Gwrthodwyd a gwrthodwyd yr apêl	Gwrthodwyd 18/08/2015 Gwrthodwyd yr apêl 25/04/2016
0/42140	Fferm Caerhun	Codi adeilad amaethyddol er mwyn compostio gwastraff gwyrdd.	Cymeradwywyd gydag amodau	16/02/2015
0/43047	Chwarel Llanddulas	Newid defnydd a rhoi estyniad ar hen weithdy i greu gorsaf trosglwyddo gwastraff a defnyddio tir i storio'r gwastraff a gaiff ei adfer a phrosesu a storio gwastraff anadweithiol.	Cymeradwywyd gydag amodau	10/02/2017
0/43793	Safle Amwynder Dinesig, Ffordd Bron y Nant	Newid defnydd i greu allfa i werthu nwyddau ail-law, adeiladu'r llawr cyntaf, cyntedd fel mynedfa, ardal storio ar y llawr cyntaf ac ystafell storio ddiogel. Rhannu tir presennol y depo a chodi ffensys a gatiâu. Newidiadau i ffensys a gatiâu ffiniau, gwasanaethau presennol ac adeiladu. Creu cilfan i 3 cherbyd a 2 fan parcio i gerbydau ar y safle presennol.	Cymeradwywyd gydag amodau.	03/05/2017